

Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad: **Ty Hywel – Ystafell Bwyllgora 4**

Dyddiad: **Dydd Mawrth, 12 Gorffennaf 2011**

Amser: **08:30**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cofnodion:

Aelodau'r Pwyllgor:

Peter Black
Rosemary Butler (Cadeirydd)
Jocelyn Davies
Jane Hutt, Llywodraeth Cymru
Nick Ramsay

Staff y Pwyllgor:

Anna Daniel (Clerc)

Eraill yn bresennol:

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Peter Greening, Llywodraeth Cymru
Sulafa Thomas, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad
Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a
Deddfwriaeth
David Melding, Ddirprwy Lywydd

1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion fel rhai a oedd yn barod i'w cyhoeddi.

3. Trefn Busnes

3(i) Busnes yr Wythnos Hon

Cyhoeddodd Arweinydd y Tŷ y byddai Datganiad y Prif Weinidog: Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru 2011-16 yn cael ei ymestyn o 60 munud i 90 munud.

Cyhoeddodd Arweinydd y Tŷ hefyd y byddai'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn gwneud datganiad ar ddydd Mercher: Adroddiad Estyn.

Nododd y Pwyllgor Busnes y byddai cynigion i newid aelodaeth y Democratiaid Rhyddfrydol yn y pwyllgorau yn cael eu hystyried yng Nghyfarfod Llawn ddydd Mercher.

Ar ddydd Mawrth, byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y ddadl fer. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai Cyfnod Pleidleisio ddydd Mercher yn cael ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

3(ii) **Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3(iii) **Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Penderfynodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

4. Pwyllgorau

4(i) **Amserlen y Pwyllgorau**

Ystyriodd y Rheolwyr Busnes safbwyntiau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol o ran ei slot yn amserlen y pwyllgorau, a chytunodd y dylai'r pwyllgor gyfarfod ar brynhawniau Llun. Nodwyd y byddai'r Pwyllgor yn ceisio defnyddio fideo gynadledda lle bo'n briodol. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ystyried slot y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol fel rhan o'r adolygiad o'r system bwyllgora newydd.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'n sôn am bryderon un Aelod o'r Pwyllgor wrth y Bwrdd Taliadau y dylai'r system lwfansau gynnig rhagor o hyblygrwydd ar gyfer llety dros nos yng Nghaerdydd i Aelodau sy'n gorfod ymgymryd â gwaith ffurfiol y Cynulliad ar ddydd Llun.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar yr amserlen a ganlyn ar gyfer y pwyllgorau:

	Wythnos 1	Wythnos 2
Prynhawn Llun	Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol	Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Bore Mawrth	Y Pwyllgor Busnes Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus <i>Safonau Ymddygiad (yn ôl yr angen)</i>	Y Pwyllgor Busnes Y Pwyllgor Deisebau
Bore Mercher	Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Y Pwyllgor Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Y Pwyllgor Menter a Busnes

	Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol	Y Pwyllgor Cyllid*
Dydd Iau – diwrnod llawn ar gael ar gyfer busnes y pwyllgor	Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Y Pwyllgor Menter a Busnes <i>Y Comisiwn (slot boreol yn ôl yr angen)</i>	Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Y Pwyllgor Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

* gyda rhagor o amser ar gael i gynnal cyfarfodydd yn ystod cyfnod trafod y gyllideb

4(ii) Cylch gwaith y pwyllgorau

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar adroddiad drafft ar gylch gwaith y pwyllgorau er mwyn rhoi eglurder ynghylch portffolios a chyfrifoldebau'r pwyllgor(au) arweiniol. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu'r confensiynau o ran rôl cadeiryddion y pwyllgorau. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i osod yr adroddiad a'i gyflwyno i'r pwyllgorau.

Nododd y Llywydd ei bwriad i gynnal cyfarfod bob tymor â chadeiryddion y pwyllgorau ac i roi sylw penodol i gylch gwaith pob pwyllgor fel rhan o'r adolygiad 12 mis o'r system bwyllgora newydd.

5. Busnes arall

5(i) Toriad yr haf: trefniadau cyflwyno ar gyfer y Swyddfa Ddeddfwriaeth a Gwasanaeth y Siambr

Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes y trefniadau cyflwyno arfaethedig ar gyfer y Swyddfa Ddeddfwriaeth a Gwasanaeth y Siambr yn ystod toriad yr haf.